# Trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu Strôc yn y Dyfodol

# Dogfen Friffio

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynhyrchu er mwyn darparu gwybodaeth am wasanaethau adsefydlu strôc o fewn y Bwrdd Iechyd, er mwyn rhoi gwybod am broblemau y mae'r gwasanaeth wedi'u hwynebu yn ddiweddar, y camau a gymerwyd ac i nodi cynigion ar gyfer sut y gellid darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb yn ein gwasanaethau strôc yn cael cyfle i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig ac yn cael cyfle i roi eu barn i ni.

**Problemau diweddar gyda'r gwasanaeth a chamau gweithredu**

Mae gwasanaethau adsefydlu strôc yn y Bwrdd Iechyd wedi cael eu darparu o dri safle gwahanol ers peth amser; Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni, Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ac Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach. Roedd cynnal lefelau staffio diogel (yn enwedig o ran staff meddygol) ar draws y tri safle wedi dod yn fwyfwy anodd ac yn 2023, cydnabuwyd bod lefelau staffio wedi cyrraedd pwynt lle nad oedd yn bosibl sicrhau darpariaeth gwasanaeth gyson a diogel bellach. O ganlyniad, gwnaed newidiadau i'r gwasanaeth ar frys a chafodd y gwasanaethau eu canoli yn Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach. Cymeradwywyd y newid hwn yn ystod ein cyfarfod Bwrdd cyhoeddus a rhoddwyd y newid ar waith ym mis Tachwedd 2023. Cyfathrebwyd yn eang gyda staff a'r cyhoedd am y newid. Cynhaliwyd trafodaeth a daethpwyd i gytundeb ymlaen llaw hefyd gyda Llais (y corff annibynnol cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru o ran eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol).

Er bod y newid hwn wedi'i wneud ar frys, roedd canoli'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â chanfyddiadau adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth (a gynhaliwyd gan y tîm clinigol cenedlaethol 'Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf'), a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2022. Roedd y newid hefyd yn debyg iawn i'r hyn a welwyd mewn llawer o wasanaethau adsefydlu strôc eraill ledled y DU, lle mae canoli wedi creu timau clinigol cryfach a mwy sy'n gallu darparu therapi adsefydlu mwy crynodedig a chynyddu'r budd hirdymor i gleifion.

**Ein profiad yn dilyn y newid brys**

Er bod y canoli dros dro wedi gofyn am waith cynllunio manwl a nifer o heriau i'r gwasanaeth, ystyrir bod y newid wedi arwain at fanteision sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-

- Gofal meddygol mwy cadarn, gan ddarparu'r gallu i gefnogi datblygiad meddygon preswyl

- Model strôc symlach a gwelliannau o ran cyfathrebu â'r uned strôc acíwt

- Therapi cyson gan dîm arbenigol canolog, gan ddarparu gwell gorgyffwrdd o ran staffio

- Gwell cydweithio rhwng staff a datblygu'r gweithlu amlddisgyblaethol

- Llwybr cyfathrebu mwy pendant gyda'r Tîm Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol

Mae'r holl brofiadau uchod wedi cael eu hadolygu'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd wrth ystyried beth fyddai'r trefniadau hirdymor gorau ar gyfer y gwasanaeth adsefydlu strôc. O ystyried y manteision sydd wedi'u gweld yn ystod y 18 mis diwethaf, a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau strôc, ystyrir na fyddai ceisio rhannu'r gwasanaeth yn ôl yn ddau safle neu fwy yn rhywbeth y byddai pobl ei eisiau nac o fudd i gleifion strôc, gan y byddai risg uchel o anawsterau staffio mawr, cefnogaeth therapi anghyson a phrofiad gwael i gleifion yn dod yn sgil hyn. Felly, daethpwyd i'r casgliad mai'r ffordd orau ymlaen fyddai gwneud y trefniadau presennol yn rhai parhaol, hynny yw, darparu holl wasanaethau adsefydlu strôc ar gyfer y Bwrdd Iechyd o ganolfan arbenigol yn Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach. Mae nifer o resymau pam yr ystyrir mai hwn yw'r opsiwn gorau ar gyfer y dyfodol:-

- Bydd yn atgyfnerthu'r holl fuddion sydd wedi'u gweld ers y newid dros dro

- Bydd yn galluogi tîm amlddisgyblaethol cryf o staff i dyfu a datblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer adsefydlu ar ôl strôc yn Ysbyty Ystrad Fawr.

- Mae'n gyson â newidiadau i unedau adsefydlu strôc ledled y DU.

- Bydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i addasu'r lleoliad dros dro i sicrhau ei fod wedi'i gynllunio yn y modd gorau posib er mwyn cefnogi adsefydlu yn y dyfodol e.e. ardaloedd triniaeth a therapi strôc arbenigol.

**Gofyn am Farn y Cyhoedd**

Er bod ein profiad wedi awgrymu'n gryf mai uned adsefydlu strôc ganolog sy'n darparu'r model gorau ar gyfer gwasanaethau diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol mae angen i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, staff, gwasanaethau cymorth, grwpiau gwirfoddol a'r holl randdeiliaid eraill. Mae'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb yn y gwasanaeth yn cael y cyfle i ddeall y cynigion, i roi adborth llawn ac i godi unrhyw ymholiadau neu bryderon a chael ymateb iddynt. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau terfynol a manylion y gwasanaeth. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd i ddiweddaru ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae enghreifftiau o ble yr hoffem glywed eich barn yn cynnwys: -

- A yw ein ffordd o feddwl ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau adsefydlu strôc yn y dyfodol yn glir ac yn synhwyrol.
- Beth yw eich barn chi am ein casgliad mai cynnal y gwasanaeth canolog yn Ysbyty Ystrad Fawr yw'r ffordd orau ymlaen i gleifion strôc?
- Oes gennych chi unrhyw bryderon am ein cynlluniau?
- Pa ffactorau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

**Sut fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud hyn?**
Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i leisio eu barn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cychwyn cyfnod ymgysylltu o 12 wythnos, sy'n cynnwys y canlynol: -

- Arddangosfa amlwg o bosteri / gwybodaeth yn ein cymunedau a meysydd gwasanaeth
- Tudalen wybodaeth bwrpasol ar wefan y Bwrdd Iechyd, a fydd yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin, mynediad at arolwg cleifion (gellir dewis fersiwn papur), pwyntiau cyswllt / rhifau a diweddariadau wrth i gynlluniau symud yn eu blaen
- Sesiynau gwybodaeth / digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Negeseuon e-bost at dros 2000 o randdeiliaid
- Sianel Ddiweddaru WhatsApp
- Cyflwyniadau i randdeiliaid gan gynnwys grwpiau cleifion
- Cyfarfodydd rheoli ar gyfer rhanddeiliaid mewnol y GIG

Y bwriad yw y bydd y cyfnod ymgysylltu yn rhedeg o **9.00am ddydd Llun 27ain Hydref 2025 hyd at 5.00pm dydd Gwener 30 Ionawr 2026.**

**Sut gall pobl fynegi eu barn?**
Gellir rhannu safbwyntiau drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch ein harolwg. Gellir cael mynediad ato drwy wefan y Bwrdd Iechyd neu drwy ddefnyddio’r cod QR ac URL isod

  bipab.gig.cymru/adsefydlu-stroc

- Dewch i un o'n cyfarfodydd cyhoeddus, lle gallwch ddysgu mwy am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau i staff y Bwrdd Iechyd / y gwasanaeth strôc. Gellir dod o hyd i restr o’r rhain dros y dudalen.

**Amserlen Digwyddiadau**

| **Dyddiad** | **Amser y Cyfarfod** | **Lleoliad** |
|---|---|---|
| Dydd Iau 6ed Tachwedd | 4.30pm - 6pm | Canolfan Addysg, **Ysbyty Ystrad Fawr**, Ffordd Ystrad Fawr, Ystrad Mynach, CF82 7GP |
| Dydd Iau 13ain Tachwedd | 4.30pm – 6pm | **Olive Tree**, Edlogan Way, Cwmbrân, NP44 2JJ |
| Dydd Mercher 19eg Tachwedd | 5.30pm – 7pm | Ystafell Roberts, **Canolfan Bridges**, Parc Drybridge, Trefynwy, NP25 5AS |
| Dydd Mercher 26 Tachwedd | 4pm – 5.30pm | **Canolfan Tabor**, 18 Davies St, Brynmawr, NP23 4AD |
| Dydd Llun 15fed Rhagfyr | 5pm – 6.30pm | **Canolfan Stocktonville**, Heol Gelli, Tredegar, NP22 3RD |
| Dydd Mercher 7fed Ionawr | 5.30pm – 7pm | **Ysbyty Nevill Hall**, Heol Aberhonddu, Y Fenni NP7 7EG |
| Dydd Mercher 14eg Ionawr | 3.30pm – 5pm | **Canolfan Gymunedol Parc Stow**, Heol Brynhyfryd, Casnewydd, NP20 4FX |
| Llun 19eg Ionawr | 4pm – 5.30pm | Sesiwn **ar-lein** drwy Teams |
| Dydd Mercher 28ain Ionawr | 5.30pm – 7pm | Ystafell Dennis Puddle, **Neuadd y Gweithwyr Blaenafon,** Stryd Fawr, Blaenafon, NP4 9PT |

- Cysylltwch â ni drwy e-bost os oes gennych unrhyw sylwadau neu i gofrestru ar gyfer y cyfarfodydd ar-lein ar ABB.PlanningDepartment@wales.nhs.uk

- Cyfrannwch at unrhyw sgyrsiau cyfryngau cymdeithasol drwy dudalennau'r Bwrdd Iechyd ar **Facebook ac Instagram**

**Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfnod ymgysylltu?**

Unwaith y bydd y cyfnod ymgysylltu wedi dod i ben, bydd yr holl ymatebion a safbwyntiau'n cael eu casglu a bydd adroddiad ymgysylltu yn cael ei baratoi. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Llais a byddwn yn dod i gasgliadau ynghylch a ellir gwneud penderfyniad terfynol ar wasanaethau adsefydlu strôc yn y dyfodol, neu a oes angen camau gweithredu pellach.

Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Llais, efallai y byddwn yn dymuno ddechrau cyfnod o ymgynghori ffurfiol ac os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn gofyn am eich barn unwaith eto.